Ŵy Mawr, Mawr

Rhannu / Gofal

"Rwy'n siŵr bod yr ŵy yna'n fwy na'r pedwar arall," meddai Siani Lwyd pan gyrhaeddodd y nyth ar ôl bod yn gwledda.
"Ydi'n wir, ac mae ei liw dipyn bach yn wahanol i'r lleill," meddai wedyn gan eistedd yn glyd ar ei nyth.
Am ddyddiau bu'n eistedd ar yr wyau yn meddwl am yr ŵy mawr, mawr. Wnaeth hi ddim dweud gair o'i phen wrth ei gŵr. Weithiau byddai ef yn eistedd ar yr wyau ond mae'n amlwg nad oedd ef wedi sylwi ar yr ŵy mawr, mawr.
Un bore, clywodd Mrs Siani Lwyd sŵn bach, bach yn dod o'r wyau. Roedden nhw'n deor. Erbyn y pnawn roedd pump o gywion bychain wedi deor. Pump o gywion bychain noeth. Ond roedd un cyw bach yn fwy na'r lleill. Beth oedd wedi digwydd tybed?
Bu Mr a Mrs Siani Lwyd wrthi'n brysur yn chwilio am fwyd i'r cywion. O fore gwyn tan nos dyna oedd gwaith y ddau, cario a chario a chario. Ond roedd y cyw mawr, mawr eisiau mwy o fwyd na'r lleill.
Un bore sylwodd Mrs Siani Lwyd mai dim ond dau gyw a'r cyw mawr oedd yn y nyth. I ble roedd y ddau arall wedi mynd? Edrychodd dros ymyl y nyth. Dyna lle roedden nhw'n gorwedd yn farw ar y llawr. Doedd dim amser i fod yn drist. Rhaid oedd cario bwyd. Erbyn bore drannoeth, roedd dau gyw arall yn farw ar y llawr. Dim ond y cyw mawr, mawr oedd yn y nyth. Erbyn hyn roedd yn llenwi'r nyth. Roedd yn tyfu'n fwy na'r rhieni. Roedden nhw'n gorfod sefyll ar ben y cyw i roi bwyd yn ei geg. A sôn am fwyd! Drwy'r dydd, bob dydd dyna oedd gwaith y rhieni. Bwydo a bwydo a bwydo. Agorai'r cyw ei geg fawr goch i dderbyn y lindys tewion. Bob hyn a hyn gwnâi sŵn rhyfedd. Sŵn eisiau bwyd oedd hwn.
Ac felly y bu am bron i dair wythnos – bwydo a bwydo a bwydo.
Erbyn hyn roedd y cyw bach yn fwy na'r nyth. Cododd a

safodd ar ymyl y nyth. Roedd o braidd yn simsan. Yno buo fo am rai oriau a'r rhieni yn dal i gario bwyd iddo. Sefyll ar ei ben a gollwng y lindys i mewn i'w geg goch anferth. Tua chanol y pnawn cododd y cyw ar ei adain a hedfan yn ddigon simsan i'r gangen islaw. Yno buo fo'n edrych o'i gwmpas a'r rhieni yn dal i'w fwydo.

"Wyddost ti," meddai Siani Lwyd "rydym ni wedi magu cyw mawr, mawr. Rydw i'n falch iawn o hynny. Ond mae o mor wahanol i ni."

"Wyt ti'n iawn," meddai Mr Siani Lwyd, "os gwn i wnaeth aderyn arall ddodwy yn ein nyth ni?

"Rhyfedd i ti ddweud hynny," meddai Mrs Siani Lwyd. "Rwy'n cofio sawl bore pan oeddwn i'n dodwy wyau roedd aderyn rhyfedd iawn ar gangen y goeden dderw. Aderyn mawr llwyd – las oedd o. Weithiau byddai un tebyg yn dod ato ac yn gwneud s_n tebyg iawn i "Cw..cw Cw..cw." Wyt ti'n meddwl mai'r aderyn yna wnaeth ddodwy ŵy yn ein nyth ni?"

Meddyliodd Mr Siani Lwyd am funud. "Efallai dy fod yn iawn. Mae'n rhaid i ni wylio'r flwyddyn nesaf."

"Un peth," meddai Mrs Siani Lwyd, "mi gawn ni orffwys rwan tan flwyddyn nesaf."

O Dduw, wnei di'n helpu ni i rannu efo pawb. Amen.

✦ O ble daeth yr ŵy tybed? Sut greadur ydi'r gog?
✦ Pa eiriau fuasech chi'n eu defnyddio i'w disgrifio?